# Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

**2010 mccc 7**

**RHAN 2**

CYDGYSYLLTU A CHYNLLUNIO GOFAL AR GYFER DEFNYDDWYR GWASANAETHAU IECHYD MEDDWL EILAIDD

*Diffiniadau*

## 13 Ystyr "darparydd gwasanaeth iechyd meddwl"

(1) At ddibenion y Rhan hon, dyma'r darparwyr gwasanaethau iechyd meddwl–

(a) Gweinidogion Cymru;

(b) Bwrdd Iechyd Lleol;

(c) awdurdod lleol yng Nghymru.

(2) Ond nid yw Gweinidogion Cymru i'w trin fel rhai sy'n gyfrifol am ddarparu unrhyw wasanaeth a gaiff ei ddarparu wrth arfer swyddogaeth y mae cyfarwyddyd a roddir o dan adran 12(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn ymwneud â hi.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 13 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 55(3)**

**I2** A. 13 mewn grym ar 6.6.2012 gan O.S. 2012/1397, **ergl. 2(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Adran 13.